



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: canllaw i ymarferwyr

Canllaw i ymarferwyr ar weithredu'r Ddeddf yn ystod 2021 i 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 Tachwedd 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 18 Tachwedd 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Trosolwg o'r gweithredu

3. Esboniad o'r 4 grŵp

4. Rhoi gwybodaeth i blant a rhieni am y trefniadau ar gyfer symud o'r system AAA i'r system ADY

5. Trefniadau i ysgolion ac UC Dau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3

6. Trefniadau i awdurdodau lleol ar gyfer symud plant yng ngrŵp 4

7. Trefniadau pan fo awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY

8. Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3 yn awtomatig ac amgylchiadau eraill

9. Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 4 yn awtomatig ac amgylchiadau eraill

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at GweithreduADY@llyw.cymru.

Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd y canllaw hwn i gefnogi awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ysgolion a gynhelir, pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), staff addysgu ysgolion ac UCDau, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar) i ddeall y trefniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY).

1.2 Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â sut y bydd deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag AAA yng Nghymru yn gweithredu o 1 Medi 2021. Mae'n nodi'r amserlen orfodol i symud grwpiau penodol o blant o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) yn Neddf Addysg 1996 i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Rhoddir sylw i sut y bydd y Ddeddf ADY yn cael ei gweithredu yn y flwyddyn gyntaf o weithredu – 1 Medi 2021 i 31 Awst 2022.

1.3 Mae'r darpariaethau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i gychwyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf) a darparu ar gyfer y pontio o'r system AAA i'r system ADY wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth, Gorchymynion Cychwyn 2, 5, 6 a 7. Mae manylion y darpariaethau yn y gorchymynion cychwyn i'w gweld yn y [canllaw technegol](#).

1.4 Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r [Cod ADY](#). Mae'r Cod ADY yn nodi sut mae'r system ADY yn gweithio, gan gynnwys darparu canllawiau ynghylch gwneud penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn ADY a llunio CDU.

1.5 [Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn \(PCP\)](#) yn rhan annatod o'r system ADY, gan gynnwys y broses o drosi cynlluniau presennol a datblygu cynlluniau datblygu unigol (CDUau).

1.6 Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r system ADY newydd ar gyfer 2021 i 2022 yn cynnwys 4 grŵp o blant, a nodir yn y tabl isod.

Grŵp 1 Plant sydd yn newydd i'r system – bydd y system ADY yn cychwyn ar 1 Medi 2021 neu 1 Ionawr 2022 ar gyfer plant sydd newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10.

Mae'r trefniadau ar gyfer plant sy'n newydd i'r system wedi'u cynnwys yng [Ngorchymyn Cychwyn 2](#) a [Gorchymyn Cychwyn 7](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Grŵp 2 Plant a gedwir yn gaeth – cychwynnodd y darpariaethau ADY ar 1 Medi 2021 ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a gedwir yn gaeth, neu ar gyfer plant a gedwir yn gaeth ar ôl 1 Medi 2021.

Darperir ar gyfer y trefniadau i blant a gedwir yn gaeth mewn llety ieuenctid yng **Ngorchymyn Cychwyn 2** ac mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer plant a gedwir yn gaeth o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Grŵp 3 Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac nad ydynt yn derbyn gofal neu nad ydynt yn mynychu mwy nag un lleoliad.

Bydd plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn 2021 i 2022 yn symud i'r system ADY rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2022: Blynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.

Darperir ar gyfer y trefniadau i blant sydd yng ngrŵp 3 yng **Ngorchymyn Cychwyn 5**.

Grŵp 4 Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

Bydd plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn 2021 i 2022 yn symud i'r system ADY rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2022: Blynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.

Darperir ar gyfer y trefniadau i blant sydd yng ngrŵp 4 yng **Ngorchymyn Cychwyn 6**.

1.7 Mae'r canllawiau wedi'u rhannu'n adrannau. Mae'r adrannau'n rhoi gwybodaeth am sut y bydd y Ddeddf ADY yn cael ei gweithredu ar gyfer y 4 grŵp o blant.

Adran 2 Trosolwg o'r gweithredu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Adran Esboniad o'r 4 grŵp
3

Adran Rhoi gwybodaeth i blant a rhieni am y trefniadau ar gyfer symud o'r system AAA
4 i'r system ADY

Adran Trefniadau i ysgolion ac UC Dau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3
5

Adran Trefniadau i awdurdodau lleol ar gyfer symud plant yng ngrŵp 4
6

Adran Trefniadau pan fo awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY
7

Adran Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3 yn awtomatig ac amgylchiadau
8 eraill

Adran Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 4 yn awtomatig ac amgylchiadau
9 eraill

Trosolwg o'r gweithredu

2.1 Bydd y system ADY a nodir yn y Ddeddf ADY yn cael ei gweithredu'n llawn dros flynyddoedd ysgol 2021 i 2022, 2022 i 2023 a 2023 i 2024.

2.2 Mae'r trefniadau pontio a nodir yn y canllaw hwn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r system ADY.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

2.3 Bydd y system yn cael ei gweithredu fesul cam yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022, a bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer grwpiau penodol o blant ar 1 Medi 2021 ac 1 Ionawr 2022.

Gweithredu o 1 Medi 2021

2.4 Ar 1 Medi 2021, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer pob plentyn hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 y credir bod ganddynt ADY, neu sydd newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY ar neu ar ôl 1 Medi 2021, ni waeth sut y caiff eu haddysg ei darparu. Felly, dylai ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol gyfeirio at y Cod ADY am arweiniad ar blant y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY, neu sydd newydd eu hadnabod fel plant ag ADY.

2.5 Ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 11 a gedwir yn gaeth, dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y canllaw technegol.

Gweithredu o 1 Ionawr 2022

2.6 Rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2024, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD. Bydd hyn yn cael ei weithredu fesul cam, gyda phlant sydd ym Mlynyddoedd Meithrin 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10 ymysg y cyntaf i gael eu symud i'r system ADY. Fodd bynnag, gall pob plentyn yng ngrŵp 3 a grŵp 4 wneud cais i gael ei symud i'r system ADY unrhyw bryd. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

2.7 Bydd y Ddeddf ADY hefyd yn dod i rym, ar 1 Ionawr 2022, ar gyfer rhai plant sy'n newydd i'r system. Y grŵp hwn o blant yw'r rhai a oedd ag AAA, neu a oedd yn ymwneud â phroses datganiad AAA, ar 1 Medi 2021 ond nad oedd ganddynt AAA, neu nad oeddent yn ymwneud â phroses datganiad AAA mwyach ar 1

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ionawr 2022. Daw'r Ddeddf i rym ar gyfer y grŵp hwn o blant, ni waeth sut y darperir eu haddysg.

Gweithredu o 1 Medi 2022

2.8 Bydd plant sydd yn y grwpiau blwyddyn gorfodol canlynol yn cael eu symud o'r system AAA i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2022 to 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10.

2.9 Dylai ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol nodi y bydd plant na chawsant eu symud i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2021 to 2022 yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022. Mae'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn berthnasol i'r plant hyn ar 31 Awst 2022. Mae hyn yn golygu pan gaiff y ffaith bod gan blentyn ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, ei ddwyn i sylw ysgol, UCD neu awdurdod lleol, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol wneud penderfyniad, oni bai bod eithriadau'n berthnasol.

2.10 Yn ogystal, bydd plant nad ydynt wedi'u cynnwys yng ngrwpiau 1 i 4 yn dechrau symud i'r system ADY.

Plant nad ydynt yn symud yn y flwyddyn gyntaf o weithredu

2.11 Yn gyffredinol, ni fydd y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc yn symud i'r system ADY yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu ond byddant yn symud yn ystod yr ail neu'r drydedd flwyddyn o weithredu:

- plant â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy nad ydynt ym Mlynyddoedd Meithrin 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10 yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022
- plant ag AAA nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir
- pobl ifanc sydd dros oedran ysgol gorfodol
- plant ym Mlwyddyn 11, ac eithrio plant sy'n cael eu cadw'n gaeth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- plant sydd â datganiad AAA
- plant sy'n ymwneud â phroses datganiad AAA

2.12 Mae ymwneud â phroses datganiad AAA yn cyfeirio at achosion lle mae plentyn neu berson ifanc naill ai'n ymwneud â phroses sy'n gysylltiedig â'r system datganiad AAA y darperir ar ei chyfer yn Neddf Addysg 1996 neu gyda phroses sy'n ymwneud â chynlluniau addysg, iechyd a gofal y darperir ar eu chyfer yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014.

2.13 Ni fydd plant sy'n destun gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy sy'n ymwneud â phroses datganiad AAA ar 1 Medi 2021, ac sy'n parhau i fod yn rhan o'r broses honno ar 1 Ionawr 2022, yn symud i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.

2.14 Bydd plant nad ydynt wedi'u cynnwys yn y trefniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu yn symud i'r system ADY naill ai yn yr ail neu'r drydedd flwyddyn o weithredu. Cyhoeddir canllawiau ar wahân sy'n cwmpasu'r ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu.

Cymhwyso'r system bresennol yn ystod y cyfnod gweithredu ar gyfer plant yng ngrŵp 3 a grŵp 4

2.15 Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA. Bydd y system honno'n dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu.

2.16 Hyd nes y caiff y plentyn ei symud i'r gyfraith newydd, mae'r ddeddfwriaeth AAA (Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996) yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r plentyn a rhaid i ddarpariaeth addysgol arbennig barhau i gael ei darparu.

2.17 Rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac UC'Dau barhau i gydymffurfio â Deddf Addysg 1996 a rheoliadau a wneir oddi tani tra byddant yn dal i fod yn gymwys i'r plentyn a'r trefniadau a nodir yng 'Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru' (y Cod AAA).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

2.18 Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth AAA wedi'i haddasu fel na fydd modd i blant yng ngrwpiau 3 a 4 ofyn am asesiad statudol o 1 Ionawr 2022 ymlaen ac na fydd modd rhoi datganiadau i blant yng ngrwpiau 3 a 4.

2.19 Mae hyn yn golygu y bydd y darpariaethau yn Neddf Addysg 1996 yn parhau mewn grym hyd at 31 Rhagfyr 2021 ac y bydd modd gofyn am asesiad statudol ar gyfer plant yng ngrwpiau 3 a 4 hyd at y dyddiad hwn.

2.20 Yn ogystal, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn parhau i fod yn berthnasol i blant ym Mlwyddyn 11 ac i bobl ifanc.

Esboniad o'r 4 grŵp

Grŵp 1: plant sy'n newydd i'r system

3.1 Y grŵp cyntaf o blant yw'r rhai sy'n newydd i'r system (hynny yw, maent newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY, neu y credir bod ganddynt ADY, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10.

3.2 Mae plant sydd newydd eu hadnabod fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY o 1 Medi 2021 yn golygu plant nad oeddent yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r system AAA ar 1 Medi 2021. Hynny yw, maent yn blant nad oes ganddynt ddatganiad AAA, nad oes ganddynt ddarpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/ gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/ gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac nid ydynt chwaith yn ymwneud ag unrhyw broses datganiad AAA.

3.3 Mae ymwneud â phroses datganiad AAA yn cynnwys, er enghraifft, plant sy'n cael asesiad statudol neu blant sy'n disgwyl asesiad yn dilyn cais am un o dan Ddeddf Addysg 1996.

3.4 Mae'r system ADY yn cychwyn ar gyfer y plant hyn sydd newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY, ni waeth sut y mae eu haddysg yn cael ei darparu. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

UCD, meithrinfa annibynnol, ysgol annibynnol neu SAB, neu blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

3.5 Bydd y Ddeddf ADY hefyd yn dod i rym, ar 1 Ionawr 2022, ar gyfer rhai plant sy'n newydd i'r system. Y grŵp hwn o blant yw'r rhai a oedd ag AAA, neu a oedd yn ymwneud â phroses datganiad AAA, ar 1 Medi 2021 ond nad oedd ganddynt AAA, neu nad oeddent yn ymwneud â phroses datganiad AAA mwyach, ar 1 Ionawr 2022. Daw'r Ddeddf ADY i rym ar gyfer y grŵp hwn o blant, ni waeth sut y darperir eu haddysg.

3.6 Bydd pob plentyn yng ngrŵp un – hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 – sydd newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY, ar neu ar ôl naill ai 1 Medi 2021 neu 1 Ionawr 2022 yn symud i'r system ADY, ni waeth sut y mae eu haddysg yn cael ei darparu.

3.7 Darperir canllawiau ar weithredu'r Ddeddf ADY ar gyfer plant sy'n perthyn i grŵp 1 yn y **Cod ADY**.

Grŵp 2: plant a gedwir yn gaeth

3.8 Mae'r ail grŵp o blant yn blant o oedran ysgol gorfodol (hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 11) sydd, ar neu ar ôl 1 Medi 2021:

- yn destun gorchymyn cadw ac yn cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuentid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr; neu
- yn cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (yn ystod achos troseddol neu wrth aros am ddedfryd)

3.9 Pan fo plentyn yn cael ei gadw'n gaeth ar neu ar ôl 1 Medi 2021, dylai awdurdod lleol gyfeirio at y canllaw technegol a phennod 19 o'r Cod ADY.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://lyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Grŵp 3: plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac nad ydynt yn derbyn gofal nac yn mynychu mwy nag un lleoliad

3.10 Mae'r trydydd grŵp o blant yn blant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/ gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/ gweithredu gan yr ysgol a mwy^[1] ar 1 Ionawr 2022, sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu nad ydynt wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Dim ond plant sydd wedi'u cofrestru mewn un ysgol neu UCD yn unig sy'n perthyn i grŵp 3.

3.11 Yn gyffredinol, bydd ysgolion ac UCDAu yn gyfrifol am symud plant yng ngrŵp 3 o'r system AAA i'r system ADY. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle na fydd ysgolion ac UCDAu yn symud plant yng ngrŵp 3 o'r system AAA i'r system ADY (gweler adran 8 o'r canllaw hwn am wybodaeth am drefniadau lle caiff plant yng ngrŵp 3 eu symud yn awtomatig ac amgylchiadau eraill).

3.12 Gall plentyn yng ngrŵp 3 nad yw eto wedi symud i'r system ADY, neu ei rieni, ofyn i'r ysgol neu'r UCD symud y plentyn i'r system ADY ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu (gweler paragraffau 5.18 i 5.22 a pharagraffau 7.1 i 7.3).

Grŵp 4: plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

3.13 Mae'r pedwerydd grŵp o blant yn blant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/ gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy/gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022, sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

3.14 Yn gyffredinol, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am symud plant yng ngrŵp 4 o'r system AAA i'r system ADY. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle na fydd awdurdodau lleol yn symud plant yng ngrŵp 4 o'r system AAA i'r system ADY (gweler adran 9 o'r canllaw hwn am wybodaeth am drefniadau lle caiff plant yng ngrŵp 4 eu symud yn awtomatig ac amgylchiadau eraill).

3.15 Dylai ysgolion ac UCDAu fod yn ymwybodol bod y ffaith bod plentyn sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad (cyfeirir ato hefyd fel cofrestriad deuol, lle mae plentyn wedi'i gofrestru mewn 2 lleoliad) yn golygu bod y plentyn wedi'i gofrestru fel disgybl neu wedi ymrestru fel myfyriwr mewn mwy nag un lleoliad, gydag un ohonynt yn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru a bod y plentyn i gael addysg neu hyfforddiant ym mhob un o'r lleoliadau lle mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig^[2].

3.16 Gall plentyn yng ngrŵp 4 nad yw eto wedi symud i'r system ADY, neu ei rieni, ofyn i'r awdurdod lleol symud y plentyn i'r system ADY ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu o 3 blynedd.

Rhoi gwybodaeth i blant a rhieni am y trefniadau ar gyfer symud o'r system AAA i'r system ADY

4.1 Mae'n bwysig cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn ystod y cyfnod gweithredu. Yn ystod tymor yr hydref ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022, dylai ysgolion ac UCDAu anfon gwybodaeth at bob plentyn sydd â Darpariaeth Addysgol Arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, a'u rhieni, sy'n:

1. esbonio'r system ADY
2. nodi'r flwyddyn ysgol y bydd y blynyddoedd gorfodol yn symud o'r system AAA i'r system ADY
3. nodi'r broses gyffredinol ar gyfer symud o'r system AAA i'r system ADY
4. esbonio hawl y plentyn neu'r rhiant i ofyn am gael symud i'r system ADY
5. darparu gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl am ADY a'r system ADY^[3]

4.2 Mae dogfen ar wahân sy'n darparu gwybodaeth sy'n cwmpasu pwyntiau 1 i 4

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

uchod y gall ysgolion ac UCDAu ei hanfon at rieni wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Yn ogystal, dylai ysgolion, UCDAu a/neu awdurdodau lleol anfon gwybodaeth benodol at blant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sydd mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022, a'u rhieni, sy'n:

- datgan y tymor y disgwylir i'r plentyn symud i'r system ADY – hynny yw, y tymor y mae'r ysgol yn disgwyl neu'n bwriadu rhoi'r hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU a beth mae'r hysbysiadau'n ei olygu
- esbonio hawl y plentyn a'r rhiant i ofyn am gael symud i'r system ADY
- nodi beth sy'n digwydd ar ôl i hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gael ei roi
- darparu gwybodaeth am yr hyn y gall rhieni ei wneud os nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD neu'r awdurdod lleol a nodir yn yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU

Trefniadau i ysgolion ac UCDAu ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3

5.1 Rhaid i ysgolion ac UCDAu symud plant yng ngrŵp 3 o'r system AAA i'r system ADY yn ystod y cyfnod gweithredu o 3 blynedd fel a ganlyn:

Tymhorau'r gwanwyn a'r haf, blwyddyn ysgol 2021 i 2022

Blynyddoedd Meithrin 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10 (cyfeirir atynt fel blynyddoedd gorfodol 2021 i 2022).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Blwyddyn ysgol 2022 i 2023

Blynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 (blynyddoedd gorfodol 2022 i 2023).

Blwyddyn ysgol 2023 i 2024

Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill ag AAA ar 1 Ionawr 2022 na symudodd i'r system ADY yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu (blynyddoedd gorfodol 2023 i 2024).

5.2 Yn gyffredinol, bydd ysgolion ac UCDAu yn symud plentyn i'r system ADY drwy roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Mae rhai achosion lle na fydd ysgolion ac UCDAu yn symud plant yng ngrŵp 3 o'r system AAA i'r system ADY. Mae'r achosion hyn fel a ganlyn:

- awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY
- plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY oherwydd newid mewn amgylchiadau
- plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

5.3 Mae Adran 8 o'r canllaw hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am achosion lle mae plentyn yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.

5.4 Pan fo plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr ac wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru, bydd yr ysgol neu'r UCD yn gyfrifol am symud y plentyn.

Penderfynu a oes gan blentyn ADY a rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU

5.5 O fis Ionawr 2022, rhaid i ysgolion ac UCDAu wneud penderfyniad ynghylch plant yng ngrŵp 3 sy'n perthyn i flwyddyn orfodol 2021 i 2022 o ran a oes ganddynt ADY^[4].

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

5.6 Mae hyn yn cynnwys plant a oedd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 pan fo'r ddarpariaeth addysgol arbennig honno yn dod i ben ar ôl hynny. Y rheswm am hyn yw bod grŵp 3 yn cynnwys pob plentyn a oedd â darpariaeth addysgol arbennig ar 1 Ionawr 2022, hyd yn oed os nad yw'n derbyn y ddarpariaeth honno mwyach yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol. O ganlyniad, rhaid i'r ysgol neu'r UCD benderfynu a oes gan y plentyn ADY.

5.7 Bydd rhaid i ysgolion ac UCDAu hefyd wneud penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn ADY lle mae'r plentyn, neu ei riant, yn gofyn am i'r plentyn symud i'r system ADY drwy ofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU.

5.8 Mae'n debygol y bydd gan blant sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ADY.

5.9 Ar ôl penderfynu a oes gan blentyn ADY ai peidio, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i rieni.

5.10 Yr hysbysiad CDU, neu'r hysbysiad dim CDU, sy'n symud plentyn o'r system AAA i'r system ADY.

5.11 Os nad yw ysgol neu UCD wedi rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), a'i riant, yn ystod tymhorau gwanwyn a haf y flwyddyn ysgol 2021 i 2022, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022.

Hysbysiadau CDU

5.12 Rhoddir hysbysiad CDU lle mae'r ysgol neu'r UCD wedi penderfynu bod gan blentyn ADY. Mae'r hysbysiad yn golygu bod y penderfyniad yn cael ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar ddyddiad yr hysbysiad. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

bod yn gymwys i'r plentyn. Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad ac eithrio:

(a) pan fo amgylchiadau eithriadol

(b) lle mae'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY:

(i) a allai alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) na fyddai'n rhesymol i'r ysgol neu'r UCD ei sicrhau

(ii) na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu

(iii) na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer

(c) lle mae'r ysgol neu'r UCD yn gofyn i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014

(d) lle mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun addysg, iechyd a gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc

5.13 Os bydd ysgolion neu UCDAu wedi rhoi CDUau cyn 1 Ionawr 2022, er enghraifft, fel rhan o gynllun peilot i ymglyfarwyddo â llunio CDUau, nid oes gan y CDUau hynny unrhyw rym cyfreithiol. Wrth symud plentyn sydd â CDU a baratowyd cyn mis Ionawr 2022 o'r system AAA i'r system ADY, bydd angen rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (fel y bo'n briodol) i'r plentyn a'i riant.

5.14 Unwaith y bydd y system ADY yn berthnasol i blentyn, a bod y plentyn hwnnw wedyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu'n dod yn gofrestredig neu'n ymrestredig mewn lleoliad arall, rhaid i'r ysgol neu'r UCD gyfeirio achos y plentyn at yr awdurdod lleol[5].

5.15 Gall ysgol neu UCD atgyfeirio achos plentyn i'r awdurdod lleol pan fo hysbysiad CDU wedi'i roi a bod anghenion y plentyn yn golygu bod yr ysgol o'r farn bod gan y plentyn bellach ADY:

- a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau
- na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol
- na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer

5.16 Mae'r CADY yn gyfrifol am sicrhau bod ADY disgybl yn cael eu hadnabod a bod cofnodion yn cael eu cadw o benderfyniadau ynghylch ADY.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Hysbysiadau dim CDU

5.17 Rhoddir hysbysiad dim CDU os nad yw'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY. Rhoddir yr hysbysiad i blentyn a rhiant y plentyn, gan gadarnhau bod yr ysgol neu'r UCD wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

5.18 Mae gan blant yng ngrŵp 3 neu eu rhieni yr hawl i wneud cais, ar unrhyw adeg, i'r ysgol neu'r UCD eu symud i'r system ADY. Gall plant, neu eu rhieni, wneud hyn drwy ofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU.

5.19 Mae'r hawl i ofyn am hysbysiad CDU yn berthnasol i bob plentyn yng ngrŵp 3, ni waeth pryd y bwriedir iddo gael ei symud i'r system ADY.

5.20 Gall plant, neu eu rhieni, wneud y cais am hysbysiad CDU naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

5.21 Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i riant o fewn 15 diwrnod ysgol i dderbyn y cais. Fel uchod, os yw'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY ac yn rhoi hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD lunio CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad, oni bai bod yna eithriadau neu amgylchiadau eithriadol.

5.22 Mae'r CADY yn gyfrifol am sicrhau bod ADY plentyn yn cael eu hadnabod a bod cofnodion yn cael eu cadw o benderfyniadau ynghylch ADY a CDUau[6]. Mae hyn yn cynnwys y dyddiad y gwneir cais i symud i'r system ADY a'r dyddiad y gwneir y penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Gall CADY ddewis ymgymryd â'r dasg hon ei hun neu drefnu i'r dasg gael ei chyflawni gan eraill.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Darpariaeth cyn cytuno ar CDU

5.23 Fel y nodwyd uchod, dyddiad yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn. Gan fod gan yr ysgol neu'r UCD hyd at 35 diwrnod ysgol i roi'r CDU o ddyddiad yr hysbysiad CDU, bydd cyfnod o amser pan na fydd darpariaeth a wneir drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn gymwys ac nad yw'r ddarpariaeth o dan y system ADY wedi'i chytuno eto drwy CDU. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ysgolion ac UCDAu gymryd camau rhesymol i gyflwyno darpariaeth i gefnogi'r plentyn (am ganllawiau ar y ddyletswydd hon, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 98 i 100).

Llunio CDU

5.24 Wrth lunio'r CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 97 i 98).

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

5.25 Bydd unrhyw blentyn mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst 2022). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn (mae adran 8 o'r canllaw hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am achosion lle mae plentyn yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY).

Trefniadau i awdurdodau lleol ar gyfer symud

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

plant yng ngrŵp 4

6.1 Bydd y Ddeddf ADY yn dod i rym ar gyfer plant sydd yng ngrŵp 4 o 1 Ionawr 2022.

6.2 Mae Grŵp 4 yn cynnwys plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 sydd, ar 1 Ionawr 2022, â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sydd:

- wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru ac sydd wedi'u cofrestru neu wedi'u hymrestru mewn lleoliad arall ac mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn; neu
- wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru ac yn derbyn gofal yng Nghymru gan awdurdod lleol yng Nghymru

6.3 Rhaid i awdurdodau lleol symud plant yng ngrŵp 4 o'r system AAA i'r system ADY yn ystod y cyfnod gweithredu o 3 blynedd fel a ganlyn:

Tymhorau'r gwanwyn a'r haf, blwyddyn ysgol 2021 i 2022

Blynyddoedd Meithrin 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10 (cyfeirir atynt fel blynyddoedd gorfodol 2021 i 2022).

Blwyddyn ysgol 2022 i 2023

Blynyddoedd Meithrin 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 (blynyddoedd gorfodol 2022 i 2023).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Blwyddyn ysgol 2023 i 2024

Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill na symudodd i'r system ADY yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn o weithredu (blynyddoedd gorfodol 2023 i 2024).

6.4 Fodd bynnag, bydd rhai achosion lle na fydd rhaid i awdurdod lleol symud plant yng ngrŵp 4 o'r system AAA i'r system ADY. Y rheswm am hyn yw bod plentyn eisoes wedi symud i'r system ADY oherwydd, er enghraifft, trosglwyddiad awtomatig ar ôl newid mewn amgylchiadau neu oherwydd trosglwyddiad awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn (gweler adran 9 am drefniadau lle caiff plant yng ngrŵp 4 eu symud yn awtomatig ac amgylchiadau eraill).

Penderfynu a oes gan blentyn ADY a rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU

6.5 Er mwyn symud plentyn yng ngrŵp 4 i'r system ADY, byddai'r awdurdod lleol priodol fel arfer yn rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Cyn rhoi'r hysbysiad, rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY (gweler pennod 20 o'r Cod ADY – 'Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol').

6.6 Yr awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gofalu am blentyn neu, os nad yw plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn os yw yn ardal yr awdurdod lleol).

6.7 O fis Ionawr 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blant yng ngrŵp 4 sy'n perthyn i flwyddyn orfodol 2021 i 2022 ADY.

6.8 Mae hyn yn cynnwys plant a oedd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 a'r ddarpariaeth addysgol arbennig honno yn dod i ben ar ôl hynny. Y rheswm am

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hyn yw bod grŵp 4 yn cynnwys pob plentyn a oedd â darpariaeth addysgol arbennig ar 1 Ionawr 2022, hyd yn oed os na fydd y ddarpariaeth honno'n bodoli mwyach yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol. O ganlyniad, rhaid i'r awdurdod lleol priodol benderfynu a oes gan y plentyn ADY.

6.9 Bydd rhaid i'r awdurdod lleol priodol wneud penderfyniadau hefyd ynghylch a oes gan blentyn ADY pan fo'r plentyn, neu ei riant, yn gofyn am i'r plentyn symud i'r system ADY drwy ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad CDU.

6.10 Mae'n debygol y bydd gan blant sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ADY.

6.11 Ar ôl penderfynu a oes gan blentyn ADY ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i rieni.

6.12 Yr hysbysiad CDU, neu'r hysbysiad dim CDU, sy'n symud plentyn o'r system AAA i'r system ADY.

6.13 Os nad yw'r awdurdod lleol priodol wedi rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn sydd mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), a'i riant, yn ystod tymhorau gwanwyn a haf y flwyddyn ysgol 2021 i 2022, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022.

Hysbysiadau CDU

6.14 Rhoddir hysbysiad CDU lle mae'r awdurdod lleol priodol wedi penderfynu bod gan blentyn ADY. Mae'r hysbysiad yn golygu bod y penderfyniad bod gan y plentyn ADY yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud ar ddyddiad yr hysbysiad. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn. Rhaid i'r awdurdod lleol priodol lunio CDU o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad, ac eithrio pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

6.15 Os bydd awdurdod lleol wedi rhoi CDUau cyn 1 Medi 2021, er enghraifft, fel rhan o gynllun peilot i ymgysfarwyddo â llunio CDUau, nid oes gan y CDUau hynny unrhyw rym cyfreithiol. Wrth symud plentyn sydd â CDU a baratowyd cyn mis Ionawr 2022 o'r system AAA i'r system ADY, bydd angen rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (fel y bo'n briodol) i'r plentyn a'i riant.

Hysbysiad dim CDU

6.16 Rhoddir hysbysiad dim CDU os nad yw'r awdurdod lleol priodol o'r farn bod gan y plentyn ADY. Rhoddir yr hysbysiad i blentyn a riant y plentyn, gan gadarnhau bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys.

6.17 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anghytuno â'r penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol, gall apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y penderfyniad.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

6.18 Gall plant yng ngrŵp 4, neu eu rhieni, ofyn am hysbysiad CDU ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu.

6.19 Gellir gwneud y cais naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

6.20 Rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cais. Fel uchod, os yw'r awdurdod lleol priodol o'r farn bod gan y plentyn ADY ac yn rhoi hysbysiad CDU, rhaid i'r awdurdod lleol priodol lunio CDU o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol.

Llunio CDU

6.21 Fel y nodwyd uchod, dyddiad yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

â bod yn gymwys i'r plentyn. Gan fod gan yr awdurdod lleol hyd at 12 wythnos i roi'r CDU o ddyddiad yr hysbysiad, bydd cyfnod o amser pan na fydd darpariaeth a wneir gan yr awdurdod lleol a/neu ysgolion ac UCDAu yn gymwys ac nad yw'r ddarpariaeth o dan y system ADY wedi'i chytuno eto drwy CDU. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ysgolion ac UCDAu gymryd camau rhesymol i gyflwyno darpariaeth i gefnogi'r plentyn (am ganllawiau ar y ddyletswydd hon, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 98 i 100).

6.22 Wrth lunio'r CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 11, tudalennau 91 i 92).

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

6.23 Bydd unrhyw blentyn mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst 2022). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn (gweler adran 9 am drefniadau lle caiff plant yng ngrŵp 4 eu symud yn awtomatig ac amgylchiadau eraill).

Trefniadau pan fo awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY

7.1 Nid yw hysbysiad ADY yr un fath â hysbysiad CDU gan nad yw'r hysbysiad yn cynnwys gwneud penderfyniad – swyddogaeth yr hysbysiad ADY yw symud y plentyn i'r system ADY yn unig. Nid yw wedi'i gyfyngu i gael ei roi mewn blwyddyn benodol o weithredu.

7.2 Caiff plentyn yng ngrŵp 3 nad yw bellach wedi'i gofrestru mewn lleoliad a gynhelir, neu ei riant, ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

7.3 Mewn perthynas â phlentyn yng ngrŵp 3, neu ei riant, yn gofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY, os nad yw awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn (er enghraifft, oherwydd bod y plentyn yn byw yn Lloegr ac wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru), yna'r awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol y lleolir yr ysgol a gynhelir neu'r UCD yn ei ardal.

7.4 Yn ogystal, caiff yr awdurdod lleol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY o dan amgylchiadau eithriadol (gweler paragraffau 7.11 i 7.17).

7.5 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn gymwys ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn gymwys o'r dyddiad hwnnw.

7.6 Trafodir y camau y mae angen i ysgol neu UCD eu cymryd pan fydd awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY isod.

A. Awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY i blentyn yng ngrŵp 3 nad yw bellach wedi'i gofrestru mewn lleoliad a gynhelir

7.7 Bydd y rhan fwyaf o blant yng ngrŵp 3 sy'n peidio â bod wedi'u cofrestru yn eu hysgol neu eu UCD yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY. Nid yw hyn yn gymwys pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig oherwydd pontio arferol (er enghraifft, symud o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7) neu oherwydd ysgol/UCD yn cau (gweler adran 8 – 'Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3 yn awtomatig ac amgylchiadau eraill').

7.8 Os nad yw plentyn yng ngrŵp 3 yn symud yn awtomatig i'r system ADY pan fydd yn peidio â bod wedi'i gofrestru yn ei ysgol neu ei UCD ac nad yw'n ymuno ag ysgol neu UCD arall, ni fyddai'r plentyn na'i rieni yn gallu gofyn am hysbysiad CDU. Y rheswm am hyn yw mai dim ond trwy ofyn i ysgol neu UCD y gall plant yng ngrŵp 3, a'u rhieni, ofyn am hysbysiad CDU.

7.9 O dan yr amgylchiadau hyn, gallai plant yng ngrŵp 3 neu eu rhieni ofyn i'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.

7.10 Ni fydd angen i ysgol nac UCD gymryd unrhyw gamau mewn ymateb i awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY i blentyn nad yw wedi'i gofrestru mewn ysgol neu UCD – yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad a, lle bo angen, llunio CDU (fel y nodir yn y Cod ADY). Mae'r cyfrifoldeb yn perthyn i'r awdurdod lleol gan nad yw'r plentyn bellach wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'r UCD.

B. Mae awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY i blentyn yng ngrŵp 3 neu grŵp 4 mewn amgylchiadau eithriadol

7.11 Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff awdurdod lleol, heb gais gan blentyn neu ei riant, symud plentyn i'r system ADY ar unrhyw adeg.

7.12 Gall ysgolion ac UCDAu ofyn i awdurdod lleol roi hysbysiad ADY. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ADY mewn ymateb i'r cais. Bydd angen i'r awdurdod lleol benderfynu a oes amgylchiadau eithriadol.

7.13 Enghraifft A: nid yw plentyn mewn grŵp blwyddyn gorfodol sydd i fod i symud o fewn y flwyddyn ysgol bresennol ac mae anghenion y plentyn wedi cynyddu y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol arbennig y gellir ei chyflwyno mewn ysgol brif ffrwd ac ni ellir dod i'r casgliad bod y plentyn, neu ei riant, wedi gofyn am hysbysiad CDU[7].

7.14 Byddai hyn yn cyfrif fel amgylchiadau eithriadol gan nad oes modd symud plentyn nad yw mewn grŵp blwyddyn gorfodol sydd i fod i symud o fewn y flwyddyn ysgol bresennol. Yn ogystal, nid oes modd i ysgol neu UCD ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol ar gyfer plentyn yng ngrwpiau 3 neu 4. Felly, ni fyddai'n bosibl i'r awdurdod lleol leoli'r plentyn mewn ysgol arbennig gan fod yr hen gyfraith yn mynnu y dylai plentyn sy'n mynychu ysgol arbennig fod â datganiad.

7.15 Mae'r pŵer i roi hysbysiad ADY yn golygu y gall yr awdurdod lleol roi hysbysiad ADY ac, wrth wneud hynny, mae'r plentyn yn symud o'r system AAA i'r system ADY ar ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

berthnasol i'r plentyn.

7.16 Yn yr enghraifft hon, fel y nodir yn y Cod ADY, gan ei bod hi'n ymddangos i'r ysgol neu'r UCD bod gan y plentyn ADY, rhaid i'r ysgol neu'r UCD naill ai wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a rhoi CDU o fewn 35 diwrnod ysgol, ac eithrio pan fo eithriadau neu amgylchiadau eithriadol yn berthnasol; neu, pan fo eithriadau'n berthnasol – er enghraifft, os nad yw'r ysgol neu'r UCD yn gallu pennu graddau neu natur ADY y plentyn, atgyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol.

7.17 Enghraifft B: mae plentyn yng ngrŵp 3 wedi'i dynnu o gofrestr yr ysgol neu'r UCD gan ei fod wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn bontio^[8] (er enghraifft, Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7). Ni ddechreuodd y plentyn mewn ysgol a gynhelir neu UCD arall ym Mlwyddyn 7, gan ei fod yn cael ei addysgu gartref neu'n mynychu ysgol annibynnol. Mae'r awdurdod lleol wedi dod yn ymwybodol bod gan y plentyn AAA ac yn ystyried bod angen darpariaeth addysgol arbennig ar y plentyn i gael mynediad at addysg. Gan nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir neu UCD mwyach, ni fydd y plentyn yn symud i'r system ADY tan 31 Awst 2024. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi'r awdurdod lleol i symud y plentyn i'r system ADY ac i wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a, lle bo angen, i roi CDU.

Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3 yn awtomatig ac amgylchiadau eraill

A. Symud yn awtomatig i'r system ADY oherwydd newid mewn amgylchiadau

8.1 Bydd plant yng ngrŵp 3 nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY pan fo eu hamgylchiadau wedi newid yn un o'r ffyrdd canlynol:

(a) wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022, daeth yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymrestredig mewn sefydliad arall hefyd (hynny yw, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad)

(b) wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022, daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru; neu

(c) wedi peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022, ac eithrio pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig oherwydd pontio arferol neu oherwydd ysgol/UCD yn cau (gweler paragraffau 8.15 i 8.22).

8.2 Mae symudiad awtomatig o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau fel y nodir uchod yn golygu y bydd plentyn yn symud o'r system AAA i'r system ADY ar ddyddiad y newid mewn amgylchiadau, ac mae'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn berthnasol i'r plentyn.

8.3 Nid oes rhaid i ysgolion ac UCDAu gymryd camau mewn perthynas â phlentyn os yw'r plentyn hwnnw wedi symud o ganlyniad i'r newid mewn amgylchiadau a ddisgrifir yn (a) a (b) ym mharagraff 8.1. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wneud hynny. Fodd bynnag, dylai ysgolion ac UCDAu rybuddio'r awdurdod lleol priodol bod y plentyn wedi symud i'r system ADY, a rhaid iddynt ddwyn i sylw'r awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.

8.4 Pan fo amgylchiadau plentyn yn newid fel y disgrifir yn (c) ym mharagraff 8.1, dylai'r ysgol neu'r UCD y mae'r plentyn yn ei gadael hysbysu'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn fod y plentyn wedi symud i'r system ADY a gall fod ganddo ADY.

8.5 Fel y nodir yn y Cod ADY, lle caiff ei ddwyn i sylw ysgol neu UCD y gallai fod gan blentyn ADY, neu os bydd hyn yn ymddangos i'r ysgol neu UCD mewn ffordd arall, bydd gan yr ysgol neu'r UCD 35 diwrnod ysgol i wneud penderfyniad a, lle bo angen, llunio CDU.

8.6 Pan fo plentyn wedi symud i'r system ADY, a bod y plentyn hwnnw wedyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu'n dod yn gofrestredig neu'n ymrestredig mewn lleoliad arall, rhaid i'r ysgol neu'r UCD atgyfeirio achos y plentyn i'r awdurdod lleol priodol^[9].

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

8.7 Mae angen i ysgolion ac UCDAu fod yn ymwybodol nad yw'r ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau ar gyfer plant yng ngrŵp 3 yr un fath ag ar gyfer plant yng ngrŵp 4.

8.8 Mae hyn yn golygu, os yw plentyn yng ngrŵp 4, er enghraifft, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, y bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY^[10] a bydd y Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn berthnasol i'r plentyn.

8.9 Pan fydd hyn yn codi, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol neu'r UCD bod y plentyn wedi peidio â bod yn gofrestredig mewn mwy nag un lleoliad ac, felly, bod y plentyn wedi symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.

B. Trosglwyddo yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

8.10 Os nad yw ysgol neu UCD wedi rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), a'i riant, erbyn 30 Awst 2022, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022.

8.11 Cyflwynwyd trosglwyddo plant yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol i sicrhau bod pob plentyn yng ngrŵp 3 yn symud i'r system ADY yn ystod y flwyddyn ysgol y mae eu blwyddyn orfodol i fod i symud.

8.12 Mae'r trosglwyddiad awtomatig yn golygu bod y Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn berthnasol i'r plentyn ar 31 Awst 2022. Fel y nodir yn y Cod ADY, mae hyn yn golygu, o'r dyddiad y caiff ei ddwyn i sylw'r ysgol neu'r UCD, neu fod hyn yn ymddangos fel arall i'r ysgol neu'r UCD, y gallai fod gan y plentyn ADY, bydd gan yr ysgol neu'r UCD 35 diwrnod ysgol i wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY ac, os penderfynir bod gan y plentyn ADY, llunio a rhoi CDU (gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 94 i 96 am ganllawiau ynghylch dyletswydd ysgol i benderfynu a oes gan blentyn ADY).

8.13 Os oedd y plentyn yn derbyn gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ysgol a mwy cyn trosglwyddo yn awtomatig i'r system ADY, yna byddai'n ymddangos i'r ysgol neu'r UCD bod gan y plentyn ADY a rhaid i'r ysgol neu'r UCD wneud penderfyniad o dan adran 11 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw, rhaid i'r ysgol neu'r UCD wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY o fewn 35 diwrnod i ddechrau tymor ysgol 2022 i 2023 (1 Medi 2022).

8.14 Os nad yw'r plentyn yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy mwyach cyn symud yn awtomatig i'r system ADY, mae'r ddyletswydd i benderfynu o dan adran 11 o'r Ddeddf ADY yn gymwys unwaith y caiff ei ddwyn i sylw'r ysgol neu'r UCD, neu os yw'n ymddangos iddi fel arall, y gallai fod gan y plentyn ADY.

C. Trefniadau pan fo plant yn symud ysgolion oherwydd cyfnod pontio neu ysgol yn cau

Pontio

8.15 Mae angen i ysgolion ac UCDAu fod yn ymwybodol nad yw'r trefniadau ar gyfer plant sydd yng ngrŵp 3 sy'n newid ysgolion oherwydd pontio neu ysgol yn cau yr un fath â'r trefniadau ar gyfer plant sydd yng ngrŵp 4.

8.16 Yn gyffredinol, bydd plant yng ngrŵp 3 yn symud yn awtomatig i'r system ADY wrth newid ysgol neu UCD. Yr eithriad i hyn yw pan fyddant yn symud ysgol neu UCD oherwydd:

- pontio rhwng Blwyddyn 2 a 3 (er enghraifft, ysgol fabanod i ysgol iau) neu rhwng Blynnyddoedd 6 a 7 (ysgol gynradd i ysgol uwchradd)
- bod eu hysgol neu eu UCD yn cau[11]

8.17 Pan fo plentyn yng ngrŵp 3 wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac yna'n peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol neu'r UCD oherwydd cyfnod pontio neu am fod yr ysgol yn cau a'i fod yn symud i ysgol arall a gynhelir, bydd yn symud yn ystod y flwyddyn ysgol y mae ei flwyddyn orfodol i fod i symud.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

8.18 Mae'r enghraifft ganlynol yn esbonio sut mae'r trefniadau'n gweithio yn achos ysgol neu UCD yn cau.

Ysgol neu UCD yn cau

8.19 Pan fo plentyn yng ngrŵp 3 yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol neu'r UCD oherwydd bod yr ysgol neu UCD yn cau cyn iddo gael ei symud i'r system ADY a bod y plentyn yn symud i ysgol a gynhelir neu UCD arall, bydd yn symud yn ystod y flwyddyn ysgol y mae ei flwyddyn orfodol i fod i symud.

Mae plentyn yn peidio â bod wedi'i gofrestru mewn ysgol neu UCD oherwydd bod yr ysgol neu'r UCD yn cau cyn ei flwyddyn orfodol ac mae'n symud i ysgol neu UCD arall

8.20 Mae plentyn yng ngrŵp 3 sydd ym Mlwyddyn 4 yn 2021 i 2022 yn peidio â bod wedi'i gofrestru yn ei ysgol neu ei UCD ar ddiwedd y flwyddyn ysgol 2021 i 2022 oherwydd bod yr ysgol neu'r UCD yn cau. Mae'r plentyn yn ymuno ag ysgol neu UCD arall ar ddechrau blwyddyn ysgol 2022 i 2023 ac mae'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig. Yn yr achos hwn, mae'r plentyn i fod i symud i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023 a bydd y plentyn naill ai:

- heb symud i'r system ADY
- wedi'i symud i'r system ADY pan roddodd yr ysgol neu'r UCD flaenorol hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, am fod y plentyn neu ei riant wedi gofyn am hyn
- wedi'i symud i'r system ADY wrth i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ADY

8.21 Os nad yw'r plentyn wedi symud i'r system ADY, rhaid i'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn roi hysbysiad i'r plentyn, a'i riant, yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023, i symud y plentyn i'r system ADY. Y rheswm am hyn yw y bydd plant ym Mlwyddyn 4 yn 2021 i 2022 ym Mlwyddyn 5 yn 2022 i 2023, sy'n flwyddyn orfodol ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023.

8.22 Os bydd y plentyn, neu ei riant, wedi gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU a bod CDU wedi'i baratoi yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

rhaid i'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn gynnal y CDU.

D. Trefniadau pan fo plant yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

8.23 Ar achlysuron prin, bydd plentyn yn symud i flwyddyn orfodol 2021 i 2022 ar ôl 1 Ionawr 2022. Gallai hyn fod oherwydd, er enghraifft, plentyn yn symud ymlaen flwyddyn o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 neu yn ôl flwyddyn o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 7 ar ôl 1 Ionawr 2022. Gellir dod o hyd i drefniadau ar gyfer plant sy'n symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol yn y canllaw technegol (gweler paragraffau 5.96 i 5.97).

Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 4 yn awtomatig ac amgylchiadau eraill

A. Symud yn awtomatig oherwydd newid mewn amgylchiadau

9.1 Bydd plant yng ngrŵp 4 nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY pan fyddant yn peidio â:

- derbyn gofal
- bod wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

9.2 Mae'r trefniadau newid mewn amgylchiadau hyn yn berthnasol ym mhob achos, gan gynnwys pan fo plentyn yn mynd drwy gyfnod pontio arferol (yn symud o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7) neu pan fo'r ysgol/UCD yn cau.

9.3 Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os oedd plentyn yng ngrŵp 4 wedi'i gofrestru'n flaenorol mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, mae'n cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, y bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY^[12].

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

9.4 Pan fo plentyn a oedd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol neu'r UCD bod y plentyn wedi peidio â bod wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, felly, wedi symud yn awtomatig i'r gyfraith newydd a bod y dyletswyddau a osodir ar yr ysgol neu'r UCD yn y Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn berthnasol i'r plentyn hwnnw.

B. Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

9.5 Os nad yw awdurdod lleol yn cael cyfle i roi hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), a'i riant, mae mesur diogelu wedi'i roi ar waith i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY.

9.6 Bydd unrhyw blentyn mewn blwyddyn orfodol 2021 i 2022 nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst 2022). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth yn golygu y bydd y Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn gymwys i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol a bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn.

C. Plant yng ngrŵp 3 y mae eu hamgylchiadau wedi newid

9.7 Pan fydd plentyn yng ngrŵp 3 yn dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol neu'n dod yn gofrestredig mewn lleoliad arall, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY (gweler adran 8 – 'Trefniadau ar gyfer symud plant yng ngrŵp 3 yn awtomatig ac amgylchiadau eraill').

9.8 Mae hyn yn golygu bod y Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn berthnasol i'r plentyn o'r dyddiad y dechreuodd y plentyn dderbyn gofal neu fod wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

D. Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

Ar achlysuron prin, bydd plentyn yn symud i flwyddyn orfodol 2021 i 2022 ar ôl 1 Ionawr 2022. Gallai hyn fod oherwydd, er enghraifft, plentyn yn symud ymlaen flwyddyn o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 neu yn ôl flwyddyn o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 7 ar ôl 1 Ionawr 2022. Mae'r trefniadau ar gyfer plant sy'n symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol yn y canllaw technegol (gweler paragraffau 5.96 i 5.97).

Troednodiadau

[1] At ddibenion y canllawiau hyn, defnyddir gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy a gweithredu gan yr ysgol/ gweithredu gan yr ysgol a mwy i olygu unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir drwy gynllun anstatudol, gan gynnwys gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy.

[2] Cod ADY, tudalen 23.

[3] Mae'r Cod ADY, tudalen 4, yn rhoi gwybodaeth ynghylch plant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

[4] Mae Pennod 2 o '**God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021**' yn ymdrin â'r diffiniad o ADY ac mae pennod 20 yn rhoi canllawiau ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol.

[5] Ceir rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol, lle mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, yn y Cod ADY, pennod 12, tudalen 101, ac ym mhennod 14, tudalennau 122 i 123, lle mae plentyn yn derbyn gofal.

[6] Cod ADY, pennod 8, tudalen 72 ymlaen.

[7] Pan fo plentyn, neu ei riant, yn gofyn am gael symud i'r system ADY neu'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gofyn am CDU ond nad yw'n gofyn yn benodol am hysbysiad CDU, gellid dod i'r casgliad bod y plentyn, neu ei riant, wedi gofyn am hysbysiad CDU.

[8] Gan fod enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr ar ddiwedd blwyddyn bontio, nid yw'r plentyn yn symud i'r system newydd yn awtomatig.

[9] Ceir rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol, pan fo plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, yn y Cod ADY, pennod 12, tudalen 101, ac ym mhennod 14, tudalennau 122 i 123, pan fo plentyn yn derbyn gofal.

[10] Dim ond ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu y bydd hyn yn berthnasol oherwydd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, bydd plant ym Mlwyddyn 6 wedi symud i'r system ADY cyn dechrau Blwyddyn 6.

[11] Gweler paragraffau 7.7 i 7.10 am y trefniadau ar gyfer plentyn yn ymuno ag ysgol neu UCD newydd yn dilyn cyfnod pontio neu ysgol yn cau.

[12] Dim ond ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu y bydd hyn yn berthnasol oherwydd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, bydd plant ym Mlwyddyn 6 wedi symud i'r system ADY cyn dechrau Blwyddyn 6.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018: canllaw i ymarferwyr](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-practitioner-guide-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).